**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KS/00792/20

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Government.Committee.Business@gov.wales

14 Ebrill 2020

Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Mawrth ynghylch Deiseb P-05-886 Stopio’r Llwybr Coch (coridor yr A55/A494).

Nid yw cynllun gwella Coridor Sir y Fflint A55/A494/A548 yn gynllun ar ei ben ei hun. Mae'n rhan o gynllun Metro Gogledd Cymru a bydd yn cynnwys pecyn ehangach o fesurau a fydd yn cyd-fynd â’m gweledigaeth ar gyfer strategaeth trafnidiaeth integredig ar gyfer yr ardal a amlinellais ym mis Mawrth 2017.

Yn fy natganiad ym mis Hydref 2019 fe wnes i gadarnhau hefyd y bydd Metro llwyddiannus angen dulliau trafnidiaeth sydd wedi'u hintegreiddio'n llawn. Bydd angen i briffyrdd chwarae rhan allweddol hefyd drwy roi mynediad i Barc Glannau Dyfrdwy ar gyfer cludo nwyddau, bysiau a theithiau nad ydynt yn bosibl drwy ddulliau eraill. Mae'r cynllun yn elfen allweddol o system drafnidiaeth integredig aml-ddull y Metro. Yn ogystal â gwella’r cysylltedd rhwng economïau gogledd-orllewin Cymru a gogledd-orllewin Lloegr, bydd y cynllun yn gwella teithio llesol a chysylltiadau bws i Lannau Dyfrdwy o gymunedau i'r de a'r gorllewin. Bydd gwella llif y traffig a’r capasiti ar rwydwaith y cefnffyrdd yn lliniaru'r defnydd amhriodol o ffyrdd lleol a'r tagfeydd presennol arnynt. Bydd hyn nid yn unig yn gwella diogelwch, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, ond hefyd yn rhyddhau capasiti a fydd yn allweddol i greu mwy o gyfleoedd ar gyfer cerdded, beicio a theithio ar fws ar ffyrdd lleol yn Sir y Fflint. Bydd y cynllun hefyd yn rhoi mynediad at y rhwydwaith rheilffyrdd drwy'r orsaf Parcffordd Glannau Dyfrdwy arfaethedig.

Bydd y cam nesaf yn datblygu'r cynllun ymhellach o ran y llwybr a ffefrir sy'n cynnwys cynnal asesiad manwl o'r effaith amgylcheddol. Bydd tîm y prosiect yn ymgynghori â rhanddeiliaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru a Choed Cadw ar fesurau i liniaru a lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd gan gynnwys ardaloedd o goetir hynafol. Byddant hefyd yn bwrw ati i archwilio ardaloedd lle y gallai gwelliannau amgylcheddol gael eu cyflawni fel rhan o'r cynllun.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd darpariaeth ar gyfer technoleg glyfar i roi gwybod i ddefnyddwyr ffyrdd am amodau traffig a gwybodaeth i'r cyhoedd yn ogystal ag arfarniad o lôn ymlusgo o Northop hyd at wasanaethau'r A55. Ystyrir yr effeithiau, y manteision a'r costau ychwanegol hefyd yn ystod cam nesaf datblygu'r cynllun.

Bydd arddangosfeydd cyhoeddus yn cael eu cynnal pan fydd y Gorchmynion drafft wedi cael eu cyhoeddi. Bydd y sawl sy'n ymateb yn uniongyrchol i'r Gorchmynion drafft yn cael hysbysiad ysgrifenedig a bydd yn cael ei hysbysebu hefyd drwy ddatganiadau i'r wasg a gorsafoedd radio lleol. Bydd yr arddangosfeydd yn cael eu cynnal mewn lleoliadau sy'n hygyrch i bob preswylydd.

Yn gywir



**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales